

Bwletin Llythrennedd a Rhifedd

Pwrpas y bwletin hwn yw rhoi gwybod i chi am y datblygiadau diweddaraf ym maes Llythrennedd a Rhifedd ac am adnoddau ar draws pob cyfnod allweddol

Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GWE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws. Hydwrn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.

Adnoddau- beth sydd ar gael ar y lein?

Llythrennedd

Defnyddio ffilm yn y dosbarth

Mae **Into Film** yn arbenigo mewn hyfforddiant i athrawon sy'n anelu i godi safonau drwy lythrennedd ffilm a defnyddio ffilm ar gyfer ysgogi cymhelliant drwy weithgareddau gwneud ffilm ac animeiddio. Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag Into Film, a'r gwaith yn cael ei wneud ledled Cymru, ewch i <https://www.intofilm.org/cymru/>



Pori drwy stori

Ydych chi wedi gweld y deunyddiau gwneud llyfrau gan Pori Drwy Stori? Bydd yr adnodd unigryw hwn yn helpu eich dosbarth i ddysgu mwy am y broses o wneud eu llyfr eu hunain, gan ddarparu adnodd ysgogol a fydd yn eu galluogi i ysgrifennu'n annibynnol ac ar y cyd mewn ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau, ar bynciau sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n bwysig iddynt.

<http://poridrwystori.booktrust.org.uk/cy/resources/3/>

Rhifedd



Adnoddau Mathemateg i rieni

Mae deithiad o adnoddau mathemateg ar gyfer plant 3 i 16 oed i annog rhieni/gofalwyr i ymgysylltu â'u plant a'u helpu gyda'u gwaith cartref mathemateg, wedi eu cynhyrchu gan Llywodraeth Cymru. Mae'r adnoddau hyn i'w defnyddio ar y cyd gyda fideos arlein

<https://www.facebook.com/dechraucartref>

Am fwy o wybodaeth ac adnoddau am yr ymgyrch 'Mae addysg yn dechrau gartref', gallwch lawrlwytho **pecyn gwybodaeth yr ymgyrch**

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?skip=1&lang=cy>



Adnoddau Bitesize TGAU

Mae **BBC bitesize** wedi creu cyfres o adnoddau dwyieithog am ddim i gefnogi'r cymwysterau TGAU newydd. Maent yn cynnwys canllawiau i ddysgwyr, clipiau fideo ar gyfer y TGAU rhifedd newydd, problemau mathemategol bywyd go iawn ac yn dangos y ffyrdd mwyaf effeithiol i gyfrifo atebion cywir.

<http://www.bbc.co.uk/education/subjects/ztfkqty>

Posau bach Mathemateg @GarethFfowc

Mae Gareth Ffowc Roberts wedi bod yn gosod posau mathemateg dyddiol ar Trydar ers 2012. Mae'r posau'n cael eu gosod yn gynnar y bore gan **@GarethFfowc** o ddydd Llun tan ddydd Gwener – gan ddefnyddio **#posdydd**.

Bydd posau dydd Gwener yn cael eu targedu'n benodol at blant yn yr oedran 6 i 8. Fel **#posbach** ar Twitter – byddant yn adnodd i athrawon a rhieni fel ei gilydd ac yn rhoi hwb i'r ddelwedd o fathemateg fel profiad i'w fwynhau.

Dyddiadau pwysig

Profion Cenedlaethol 2017

Mae dyddiadau Profion Cenedlaethol 2017 wedi'u pennu fel a gynlyn:

- Ysgolion Uwchradd: 26 Ebrill – 10 Mai 2017
- Ysgolion Cynradd: 3 – 10 Mai 2017
- Ysgolion Canol: 26 Ebrill – 10 Mai 2017

Gwybodaeth bwysig

Asesiadau ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r gofynion statudol o ran gosod targedau ysgol

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi penderfynu tynnu'n ôl y penderfyniad i newid y lefelau disgwylidiedig ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3, ac felly unrhyw newidiadau i'r rheoliadau gosod targedau, o ganlyniad i hyn, er mwyn cynyddu'r lefel cyflawniad ddisgwylidiedig ar gyfer dysgwyr mewn Saesneg, Cymraeg (iaith gyntaf) a Mathemateg ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 o Haf 2018 ymlaen.

Darganfodir yma gopi o'r llythyr a anfonwyd at y Sector Addysg.



DYSGU GYDA'N GILYDD CYMRU

Mae Volunteering Matters- Dysgu Gyda'n Gilydd Cymru yn brosiect cyffrous newydd i recriwtio gwirfoddolwyr lleol mewn ysgolion (cynradd ac uwchradd) ar draws Gogledd Cymru i helpu, cefnogi a chyfrannu at y broses o ddatblygu llythrennedd a rhifedd pobl ifanc phlant.

I gymryd rhan, a dysgu mwy am y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion, cysylltwch â –

Mair Watts, Cydlynnydd Dysgu Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru – MairOwen.Watts@volunteeringmatters.org.uk
Rhif ffon : 07469 859 004

Pori drwy Stori

Athrawon Dosbarth Derbyn, mae holl adnoddau ar gyfer tymor yr Hydref ar safwe **Pori Drwy Stori** :

<http://poridrwystori.booktrust.org.uk/>



GWE (@GwEGogleddCymru)